

Beibl i Blant yn cyflwyno

Jacob y
Twyllwr




Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: M. Maillot; Lazarus
addaswyd gan: M. Kerr; Sarah S; Alastair
Paterson
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada

©2021 Bible for Children, Inc.

Trwydded: mae gennych hawl i gopio neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.






Ydy Duw wedi rhoi babi
newydd i'ch teulu chi?
Mae'n beth cyffrous
iawn! Mae'n rhaid bod
Isaac a Rebeca yn
teimlo hapusrwydd
dwbl - roedden
nhw'n mynd i gael
efeilliaid gan Dduw.



Fe wnaeth y babis
wthio ei gilydd yng
nghroth Rebeca.
Pan oedd hi'n
gweddio, roedd
Duw yn dweud
wrthi fod ei dau
fab yn mynd i
arwain dwy
genedl - a'r mab
ieuengaf fyddai'r
pwysicaf. Fel arfer y
babi sy'n cael ei eni gyntaf
sy bwysicaf. O'r diwedd
cafodd y babis eu geni.



Doedd yr efeilliaid ddim yn debyg i'w gilydd.
Roedd gan Esau, y bachgen hynaf, lot o
wallt. Tyfodd hwn i fod yn heliwr gwych.
Croen llyfn oedd gan Jacob ac roedd
e'n hoffi gweithio yn agos i'w gartref.
Roedd Isaac yn hoffi Esau

fwyaf.
Jacob



oedd
ffefryn
Rebeca.



Un diwrnod, roedd Esau eisiau bwyd. "Rho fwyd i mi," gofynnodd i Jacob. "Dim ond os wnei di werthu dy hawliau fel y mab hynaf i mi", meddai Jacob.

Doedd dim ots gan Esau am addewidion Duw i'r plentyn hynaf. Dyma fo'n taro bargaen gyda Jacob. Jacob fyddai pen y teulu wedi i'w tad farw.



Un noson, siaradodd Duw gydag Isaac. "Fi ydy Duw dy dad, Abraham. Rydw i gyda thi. Fe fyddai'n bendithio dy ddisgynyddion." Roedd Isaac yn addoli Duw, ond roedd ei fab Esau wedi priodi dwy wraig o lwyth yr Hethiaid ac roedden nhw'n poeni dim am Dduw.





Dechreuodd Isaac fynd yn hen. "Tyrd â phryd o gig ffres i mi," meddai wrth Esau, "yna fe wna i dy fendithio di." Dyma'r fendith arbennig roedd tad yn ei rhoi i'r mab hynaf. Brysiodd Esau allan i hela. Ond roedd Rebeca wedi clywed popeth. Roedd hi am i Jacob gael y fendith.






Roedd cynllun gan
Rebeca. Dechreuodd
goginio hoff fwyd
Isaac. Gwisgodd
Jacob ddillad Esau, a
rhoi crwyn anifail ar
ei ddwylo a'i wddf.
Doedd Isaac ddim yn
gallu gweld yn dda
iawn: efallai y bydden
nhw'n gallu ei dwyllo.



Rhoddodd Jacob y
bwyd i Isaac. "Mae dy
lais yn debyg i lais Jacob,"
meddai Isaac, "ond mae
dy ddwylo fel rhai Esau."
Ar ôl bwyta, penliniodd
Jacob o'i flaen a chael
ei fendithio.






Roedd Jacob newydd
adael pan ddaeth
Esau at Isaac. "Dyma
dy fwyd," meddai.
Sylweddolodd Isaac
ei fod wedi cael ei
dwylo. "Fedra i ddim
newid y fendith,"
meddai. Dechreuodd
Esau gasáu Jacob -
roedd am ei ladd.




Clywodd Rebeca Esau yn
bygwth ei frawd. Dywedodd
"Dos i dŷ d'ewyrth nes bydd
dy frawd wedi anghofio beth
wnest ti." Cytunodd Isaac y
dylai Jacob chwilio am wraig
ymhlith teulu ei fam. Felly
symudodd Jacob i
ffwrdd i fyw.




Y noson honno,
arhosodd
Jacob ar ochr
ffordd i gysgu,
a defnyddiodd
garreg fel clustog.
Efallai bod e'n
teimlo'n unig,
ac yn ofnus.



Onid doedd
e ddim ar ben ei
hun. Siaradodd
Duw gydag
e mewn
breuddwyd
rhyfeddol.





"FI YDY'R ARGWLWYDD — DUW
ABRAHAM DY DAID AC
ISAAC DY DAD.
DW I'N MYND I ROI'R
WLAD YMA I TI A DY DDISGYNYDDION.
BYDD POBLOEDD Y BYD I GYD YN CAEL EU
BENDITHIO TRWOT TI A DY DDISGYNYDDION."
Deffrodd Jacob - roedd ganddo ofn.



Rhoddodd ewythr Jacob, Laban, groeso
iddo. Syrthiodd Jacob mewn cariad
gyda'i berthynas Rachel.
Cytunodd i weithio i Laban
am saith mlynedd er mwyn
cael ei phriodi. Ond ar



noson y briodas,
cafodd Jacob ei
dwylo gan Laban.




"Lea ydy hon, nid Rachel," cwynodd Jacob. "Rwyd ti wedi fy nhwylo." "Atebodd Laban" Mae'n arferiad i'r ferch hynaf briodi o flaen yr ieuengaf. "Cei di briodi Rachel hefyd, dim ond i ti weithio i mi am saith mlynedd arall." Cytunodd Jacob i hyn - tybed oedd e'n cofio ei fod wedi twyllo Isaac ac Esau?




Cafodd Jacob un deg un o
feibion. Wrth i'r blynyddoedd
basio roedd yn dyheu am fynd
nôl i Ganaan hefo'i deulu.
Roedd ei rieni'n byw yno.
Ond roedd Esau yno hefyd,
ac roedd wedi gwneud llw y
byddai'n lladd ei frawd.



Oedd hi'n ddiogel mynd yn
ôl? Un diwrnod dywedodd
Duw wrtho am fynd.
Casglodd Jacob ei
deulu a'i anifeiliaid a
chychwyn am adre.




Am siwrne! Daeth Esau
i gyfarfod Jacob gyda
phedwar cant o ddynion!
Ond wnaeth e ddim
brifo Jacob. Rhedodd
ato a rhoi ei freichiau
amdano. Daeth Jacob ac
Esau yn ffrindiau eto.
Roedd Jacob



Jacob y Twyllwr
Stori o Air Duw, y Beibl
sydd i'w gweld yn
Genesis 25 - 33

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130





Y Diwedd



6



60



Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol.
Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16

